# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Ionawr 2026

Amser y cyfarfod: 13.30

# 325 (v4)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

I'w ateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar y goblygiadau i Gymru yn sgil Cyfraith arfaethedig Hillsborough?

I'w ateb gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

Heledd Fychan (Canol De Cymru): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar y gwaith gwaddol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni'r Tour de France yn dod i Gymru?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiadau 90 eiliad.

## 5 Dadl y Pwyllgor Cyllid: Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

(30 munud)

**NDM9110** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid 'Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2025.

Sylwch: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2026.

Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Atal iechyd gwael - gordewdra

(60 munud)

**NDM9111** Peter Fox (Mynwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 'Atal iechyd gwael - gordewdra' a osodwyd ar 8 Hydref 2025.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2025.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Hosbisau

(60 munud)

**NDM9112** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y gwaith eithriadol y mae'r sector hosbis a gofal lliniarol yn ei wneud wrth ddarparu gofal a chymorth diwedd oes o ansawdd uchel i deuluoedd.
2. Yn cydnabod y pwysau ariannol digynsail ar hosbisau yng Nghymru o ganlyniad i gynnydd mewn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, prinder gweithlu, a'r galw cynyddol am eu gwasanaethau.
3. Yn gresynu bod arolwg diweddar o hosbisau yng Nghymru a gynhaliwyd gan Hospice UK wedi canfod:
a) bod 30 y cant eisoes yn lleihau gwelyau neu'n torri gwasanaethau;
b) bod dros 70 y cant sydd ag unedau cleifion mewnol yn disgwyl i o leiaf un gwely gau dros dro neu'n barhaol; ac
c) bod tri chwarter yr hosbisau yn ofni y byddant yn cael eu gorfodi i dynnu nôl y cymorth y maen nhw'n ei ddarparu ar hyn o bryd i ysbytai a chartrefi gofal.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu model ariannu cynaliadwy newydd ar gyfer hosbisau yng Nghymru, gan gynnwys £40 miliwn yn ychwanegol dros dymor y Senedd nesaf.
Welsh palliative and end of life care services at risk due to broken funding model, Hospice UK (Saesneg yn unig)
**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**
**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:
Yn cydnabod canfyddiadau arolwg Hospice UK.
Yn croesawu:
a) y cynnydd o £21 miliwn i gyllid hosbisau gan Lywodraeth Cymru dros dymor y Senedd hon; a
b) y gwaith sydd ar y gweill rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector hosbisau i ddatblygu model cyllido cynaliadwy.

## 8 Cwestiynau Amserol

(10 munud)

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am yr oedi i waith Cam 2 ar Bont Menai?

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM9113** Lee Waters (Llanelli)

Yr angen am gynllun cenedlaethol i wella gwasanaethau syndrom Tourette

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Ionawr 2026

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 14/01/2026 i'w hateb ar 21/01/2026

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ63702 **(e)**

Sut y mae'r Llywodraeth yn hyrwyddo'r economi gydweithredol yn Nwyrain De Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

2 OQ63691 **(e)**

Pa asesiad y mae yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o effaith costau cynyddol ar y sector twristiaeth a lletygarwch?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

3 OQ63681 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau bach yng Ngogledd Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OQ63698 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau’r Llywodraeth i gefnogi cynhyrchu ynni domestig a chymunedol fel rhan o gynlluniau effeithlonrwydd ynni?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

5 OQ63700 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn alinio'r ddarpariaeth sgiliau a chreu swyddi i gymunedau lleol gyda'r buddsoddiad yn ffordd Blaenau'r Cymoedd?

**Peter Fox** *Mynwy*

6 OQ63682 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid Llywodraeth Cymru i Faes Awyr Caerdydd?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

7 OQ63686 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o'r manteision economaidd i Gymru pe bai'r DU yn ymuno ag undeb tollau gyda'r UE?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ63690 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi hwb i fusnesau ar draws Gorllewin De Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

9 OQ63694 **(e)**

Pa drafodaethau a gafodd yr Ysgrifennydd Cabinet yn Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru ynglŷn â hyrwyddo rhwydwaith gwres ar gyfer de Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

10 OQ63683 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau ym Mhreseli Sir Benfro?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ63696 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i gyflwyno targedau i leihau marw-enedigaethau a marwolaethau newyddenedigol, fel sy'n bodoli yn Lloegr?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ63704 **(e)**

Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Ysbyty Tywysoges Cymru i adfer capasiti orthopedig ar ôl cwblhau'r gwaith atgyweirio toeau yn ddiweddar?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

3 OQ63697 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cyfraddau sgrinio'r fron yn Islwyn?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

4 OQ63680 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

5 OQ63685 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella cyfraddau sgrinio am ganser?

**Lesley Griffiths** *Wrecsam*

6 OQ63692 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda fferyllfeydd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ63689 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau rhestrau aros y GIG yn Nwyrain De Cymru?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

8 OQ63679 **(w)**

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau'r amser aros am driniaeth orthopedig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ63693 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cleifion sydd â chanser y fron yn derbyn y gefnogaeth briodol?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ63688 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am restrau aros fflebotomi ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

11 OQ63703 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar y cynlluniau i ddatblygu Canolfan Iechyd a Lles yng Nghaergybi?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

12 OQ63701 **(e)**

Pa wersi y mae Llywodraeth Cymru yn eu dysgu o lwyddiant yr ymgyrch Blaenau Gwent yn Bwydo ar y Fron i gynyddu cyfraddau bwydo ar y fron ledled Cymru?